**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Blaenrheidol – 9ed Dachwedd 2021**

Cynhaliwyd y cyfarfod yng nghapel Ponterwyd gan gadw at reolau Covid 19.

**Yn bresennol roedd** – Y Cynghorwyr Mick Bruce (Is Gadeirydd), John Lewis, David Ll. Evans, Sarah Bunton, Dafydd Jones a'r Cynghorydd Sirol Rhodri Davies ac Elaine Lewis (clerc).

**Ymddiheuriadau** gan, Llyr Lewis, Aled Thomas a John Wall.

**Cofnodion** - Pasiwyd yn gywir gyda Sarah Bunton yn cynnig a John Lewis yn eilio, roedd pawb o blaid.

**Materion yn Codi** -Adroddodd y clerc bod mwyafrif o'r gwelliannau i gelfi y maeschwarae wedi eu cwbwlhau.
Derbyniwyd dogfen Cytundeb Gofalaeth ar gyfer celfi newydd i'r maeschwarae a brynwyd gyda grant o Gyngor Sir Ceredigion yn 2019 sydd angen ei harwyddo, felly arwyddodd yr Is Gadeirydd a'r Clerc y ddogfen.
Trafodwyd y mater o geir yn parcio gyferbyn a Brynhyfryd gan eu bod yn rhwystro ceir i weld heibio wrth ddod at y gyffordd. Dywedodd Rhodri y byddai yn trafod gyda Spencer Lloyd o GSC.

**Cynllunio –** Dolcarne, Ponterwyd, gwelliannau a newidiadau. Nid oedd gwrthwynebiad.

**Cyllid** - Balans yn y banc ar 13.10.21 - £2,547.36
Anfonebau a basiwyd i'w talu -
Mr S Evans, Torri porfa - £60 Rhif - 8
Un Llais Cymru - £80
Glyn Jones, Atgyweirio - £385 + £77 VAT = £462
Rev Ingrid Rose, Sul y Cofio - £30

Atgoffodd y clerc am –
Diwrnod Agored gan Fferm Wynt Lluest y Gwynt yn yr ysgol Dydd Sadwrn 13.11.21
Gwasanaeth Sul y Cofio yng Nghapel Mynach am 10a.m. ar 14.11.21 (Aled i gyflwyno y dorch)

**U.F.A. –** Adroddodd Dafydd bod wal y bont ger Tynfford wedi cwympo a bod angen ei hatgyweirio ar frys.
Adroddodd Rhodri am y sefyllfa ynglyn a chael camerau CCTV i Maesyrawel yn dal i fynd ymlaen. Cafwyd trafodaeth hir am yr ymddygiad gwrth gymdeithasol a'r troseddau sydd wedi digwydd yn yr ardal yn ddiweddar.
Gofynnodd David Ll Evans pryd bydd yr arwydd ar y ffordd i Benrhyncoch yn cael ei hail osod, dywedodd Rhodri y gwnai ymholiadau i GSC.
Roedd hefyd am wybod ble oedd lleoliad y diffibrilwyr, maent wedi eu lleoli ger y garej a'r ysgol. Adroddodd bod y ffordd heibio i Blaenmelindwr tuag at llyn Sefydrin mewn cyflwr gwael gyda llawer o dyllau ynddi ac roedd am wybod os mai ffordd Cyngor ydyw.
Dywedodd Sarah ei bod yn gofidio am bobl sydd yn cerdded eu cwn yn fore bach cyn iddi oleuo a ddim yn gwisgo dillad llachar nag unrhyw olau.